

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Ffordd Dolfor, y Drenewydd,
Powys) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
2020

The A483 Trunk Road (Dolfor
Road, Newtown, Powys)
(Temporary Prohibition of
Vehicles, Cyclists & Pedestrians)
Order 2020

Gwnaed 3 Mawrth 2020
Yn dod i rym 9 Mawrth 2020

Made 3 March 2020
Coming into force 9 March 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor, y Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 9 Mawrth 2020.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Dolfor Road, Newtown, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2020 and it comes into force on 9 March 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, cerbydau cynnal a chadw yn ystod y gaeaf, bysiau trafndiaeth gyhoeddus, a hynny er mwyn cael mynediad at eiddo yr effeithir arno, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services, winter maintenance vehicles, public transport buses, for access to affected properties or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 9 Mawrth 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â’r U2822 Lôn Penlan hyd at ganol yr allanfa tua’r de o Gylchfan Ffordd Dolfor ar Ffordd Osgoi y Drenewydd, y Drenewydd, Powys.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gwmwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

3 Mawrth 2020

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester Trunk Road that extends from the centre-point of its junction with the U2822 Penlan Lane to the centre of the southbound exit from Dolfor Road Roundabout on Newtown Bypass, Newtown, Powys;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 19:00 hours on 9 March 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in article 2.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in article 2.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in article 2.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

3 March 2020

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(FFORDD DOLFOR, Y DRENEWYDD, POWYS)
(GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A
CHERDDWYR DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn y Drenewydd, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2822 Lôn Penlan hyd at ganol yr allanfa tua'r de o Gylchfan Ffordd Dolfor, y Drenewydd. Bydd cerbydau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys, ar gyfer cynnal a chadw yn y gaeaf, bysiau trafndiaeth gyhoeddus ac ar gyfer y gwaith yn cael eu heithrio o'r gwaharddiad.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A483 tua'r de i'r Groes, yr A44 tua'r gorllewin i Raeadr Gwy, yr A470 tua'r gogledd i groesfan reilffordd Moat Lane ger Caersŵs a'r A489 tua'r dwyrain i Gylchfan Ffordd Dolfor: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym ar 9 Mawrth 2020 ac y byddant yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 13 Mawrth 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (DOLFOR ROAD,
NEWTOWN, POWYS) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS &
PEDESTRIANS) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Newtown, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A483 trunk road that extends from the centre-point of its junction with the U2822 Penlan Lane to the centre of the southbound exit from Dolfor Road Roundabout, Newtown. Vehicles being used by the emergency services, for winter maintenance, public transport buses and for the works will be exempt from the prohibition.

The alternative route for northbound traffic will be via the southbound A483 to Crossgates, westbound A44 to Rhayader, northbound A470 to Moat Lane level crossing near Caersws and eastbound A489 to Dolfor Road Roundabout: vice versa for southbound traffic.

It is expected that the temporary prohibitions will come into force on 9 March 2020 and operate overnight (19:00 – 06:00 hours) until 13 March 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government